DE CYMRU

*Canllaw Teithio Grŵp*

# Sir Fynwy

Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU



Blaenau Gwent
Blaenafon
Penybont
Caerffili
Caerdydd
Merthyr Tudful
Sir Fynwy
Casnewydd
Rhondda Cynon Taf
Bro Morgannwg

www.southernwales.com

# Sir Fynwy yw Prif Ganolfan Bwyd Cymru

## ac mae gennym smorgasbord o atyniadau bwyd a diod buddugol a chyrsiau coginio.



**Te Prynhawn yng Ngwesty'r Angel**
Y Fenni, NP7 5EN

Te Prynhawn gan ddeiliad Prif Wobr Te Prynhawn Dinas a Chefn Gwlad y 'British Tea Guild', wedi ei wneud yn ffres bob prynhawn.

www.angelabergavenny.com/afternoon-tea
info@angelabergavenny.com

**Apple County Cider Co.**
ger Ynysgynwraidd. NP25 5NS

Dewch i flasu seidr sydd wedi ennill gwobrau i'r gwneuthurwr seidr Ben a phrynu jam cartref, cordialau, cwrw lleol, mêl a hufen ia.

*Yn cynnig: Blasu, siop, arlwyo.*

01600 750835
www.applecountycider.co.uk
hello@applecountycider.co.uk

**Bragdy Kingstone, Tyndyrn**
ger Cas-gwent. NP16 7NX

Cwrw go iawn heb ei hidlo, yn naturiol ac yn real heb fod â chywilydd o hynny.

*Yn cynnig:* Blasu, Teithiau Bragdy, Prydau yn y 'Tintern Taproom'

01291 680111
www.kingstonebrewery.co.uk
info@kingstonebrewery.com

**Gwinllan Parva Farm, Tyndyrn**
ger Cas-gwent. NP16 6SQ

Dewch i weld gwinllan hynaf Cymru, yn edrych dros Abaty hanesyddol Tyndyrn yn Nyffryn Gwy.

*Yn cynnig:* Teithiau Gwinllan, Siop Anrhegion, Blasu

01291 689936
www.parvafarm.com
parvafarm@hotmail.com

**Gwinllan Sugarloaf**
Y Fenni. NP7 7LA

Mae'r winllan hardd hon wedi ei hamgylchynu gan fryniau hardd Cymru uwch ben y Fenni.

*Yn cynnig:* Llety, Teithiau Gwinllan, Siop Anrhegion, Blasu

01873 853066
www.sugarloafvineyard.co.uk
enquiries@sugarloafvineyard.co.uk

**Gwinllan The Dell**
Rhaglan. NP15 2AA

Edrychwn ymlaen at gael eich croesawu i'n gwinllan newydd sydd wedi ei phlannu ar ein fferm deuluol. Dewch ar daith a blasu gwin sydd wedi ennill gwobrau. Uchafswm maint grŵp o 25 o bobl.

*Yn cynnig:* Teithiau

www.thedellvineyard.co.uk
hello@thedellvineyard.co.uk

**Gwinllan White Castle**
Y Fenni. NP7 8RA

Mwynhewch winoedd o safon uchel yn y winllan hon sydd wedi ennill Gwobr Gwin y Byd Decanter. Dewch i ymweld a phrofi harddwch a thawelwch ein lleoliad gwledig

*Yn cynnig:* Teithiau Gwinllan, Siop Anrhegion, Blasu.

www.whitecastlevineyard.com
info@whitecastlevineyard.com

## Cyrsiau i grwpiau

**Crafty Pickle**
Cil-y-coed. NP26 5UT

Dau faethegydd ydym ni yn arbenigo mewn addysg eplesu gan rannu sgiliau eplesu bwyd trwy weithdai rhyngweithiol am sauerkraut, kimchi, diodydd wedi eu heplesu a mwy. Rydym yn cynnal dosbarthiadau yn gyson yn ein cegin eplesu hygyrch lle gallwn ni groesawu hyd at 10 yn gyfforddus.

www.thecraftypickle.co.uk
hello@thecraftypickle.co.uk

**Gourmet Gatherings**

Ymunwch â Chloe ar daith borthiana yn Sir Fynwy lle bydd yn eich dysgu sut i ddod o hyd i lysiau bwytadwy a'u hadnabod, dangos rysetiau i chi y gallwch eu defnyddio ynddyn nhw a darganfod y blasau anhygoel ar eich trothwy.

www.gourmetgatherings.co.uk
chloe.gourmetgatherings@gmail.com

**Hive Mind Mead & Brew Co.**
Cil-y-coed. NP26

Rydym yn ymfalchïo mewn creu'r medd gorau un. O'r cwch gwenyn i'ch llaw rydym yn gofalu amdano yn ofalus nes byddwn yn ei ryddhau i'r byd. Dysgwch sut i wneud medd / sut i gadw gwenyn neu ewch i'n bar

www.wyevalleymeadery.co.uk
hey@hivemindmead.com

**Distyllfa Silver Circle**
Upper Meend Farm, Penallt, NP25 4RP

Cynhyrchydd gwirodydd arbenigol ym mhentref hardd Penallt, yn ddwfn yn nhirwedd genedlaethol Dyffryn Gwy.

Yn cynnig blasu jin a theithiau distyllfa, gwneud eich jin eich hun, a phrofiadau chwilio am lysiau a gwneud jin.

Lle i barcio bysiau ar gael.

https://silvercircledistillery.com
hello@silvercircledistillery.com

**The Abergavenny Baker**
Y Fenni. NP7 5PE

Yn ei dosbarthiadau diwrnod a hanner, mae'r pobydd Rachael Watson yn rhannu ei gwybodaeth, sgil a brwdfrydedd am bobi bara bendigedig o bob rhan o'r byd.

www.abergavennybaker.co.uk
abergavennybaker@gmail.com

**The Preservation Society**
Cas-gwent. NP16 5QW

Dysgwch sut i wneud jamiau, catwadau, piclau a suropau yn llawn blas yng nghanol Dyffryn Gwy.

www.thepreservationsociety.co.uk
angharad@thepreservationsociety.co.uk

**Distyllfa White Hare**
Brynbuga. NP15 1BQ

Dewch i ymweld â distyllfa jin sydd wedi ennill gwobrau yng nghanol Brynbuga a mwynhau eu blasu neu greu eich jin eich hun yn ein dosbarthiadau meistr.

*Yn cynnig:* Blasu, Dosbarthiadau Meistr, Siop Anrhegion

https://whiteharedistillery.co.uk/
hello@whiteharedistillery.co.uk

---

Am fwy o gynhyrchwyr, tafarndai, bwytai a digwyddiadau bwyd fel Gŵyl Fwyd y Fenni, ewch i **https://cy.visitmonmouthshire.com/bwyd-a-diod**

# Cynnwys




04 Trosolwg Rhanbarthol



06 Atyniadau



08 Gweithgareddau



10 Llety



12 Lluniaeth



13 Archwiliwch Sir Fynwy



15 Uchafbwyntiau o Ddigwyddiadau



16 Parcio i Fysiau



17 Arweinwyr Taith




18 Mapiau a Gwybodaeth am Deithio

Hello... Shwmae.... Bonjour.....
Guten Tag.... Hallo... Dia duit

## Croeso i De Cymru

Efallai bod gennych syniad eisoes beth i'w ddisgwyl o daith i De Cymru.

Rydym yn cael eu rhannu'n ddeg ardal nodedig, pob un â'i gymeriad a'i swyn ei hun. Mae ardaloedd Blaenau Gwent, Blaenafon, Caerffili, Merthyr a Rhondda Cynon Taf yn adnabyddus am eu hanes a'u treftadaeth, tra bod Sir Fynwy gerllaw yn fwy gwledig ac yn enwog am ei bwyd a'i diod gwych. Mae Casnewydd a Chaerdydd yn ddinasoedd ffyniannus gyda nifer o atyniadau o'r radd flaenaf ac yna mae Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg yn gymysgedd o gyrchfannau arfordirol, trefi marchnad a chefn gwlad gwych.

Mae gennym ddigon o gestyll ac amgueddfeydd ond mae gennym hefyd Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, dechrau Llwybr Arfordir Cymru a Thirwedd Genedlaethol Dyffryn Gwy.

Mae gennym hefyd rai pethau na fyddech efallai'n eu cysylltu â ni. Mae olion amffitheatr a barics Rhufeinig, gwinllannoedd sy'n cynhyrchu gwin arobryn a cherflun mawr gwych, yn esgyn 20 metr i'r awyr ac yn sefyll fel gwarchodwr dros y Cymoedd islaw.

Mae gan bob un o'n hardaloedd ei chanllaw ei hun. Felly, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd drwy'r canllaw hwn ac yna edrychwch ar y llyfrynnau cydymaith a chyn bo hir byddwch yn cynllunio eich taith i De Cymru.



Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan
**www.southernwales.com**

neu cysylltwch â'r tîm twristiaeth:
rhif ffôn - **+44 (0)1633 644842**
e-bost - **tourism@monmouthshire.gov.uk**





## Dewch i Ddarganfod Sir Fynwy

Yn swatio rhwng Tirwedd Genedlaethol Dyffryn Gwy, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon a thirwedd ddiwylliannol isel Gwastadeddau Gwent, croeso i brif ganolfan bwyd Cymru!

Yn sefyll ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr, bu brwydro ffyrnig am yr ardal hon yn y gorffennol. Diolch byth mae'r ardal yn fwy heddychlon heddiw, er bod nodweddion i'n hatgoffa o helyntion y gorffennol yn parhau gyda naw castell ar draws ei chefn gwlad bryniog.

Nid cestyll yw'r unig adeiladau hanesyddol sydd i'w gweld. Dyna i chi adfeilion rhamantus Abaty Tyndyrn yng nghanol Dyffryn Gwy, Priordy Llanddewi Nant Hodni yn Nyffryn diarffordd Euas a'r Neuadd Sirol sydd wedi ei hadfer yn Nhrefynwy, lleoliad achosion llys drwg-enwog y Siartwyr yn 1840.

Allwch chi ddim ymweld â'r ardal heb flasu rhywfaint o fwyd a diod gorau Cymru. Yn cael ei hadnabod yn eang fel canolfan bwyd Cymru, mae pedair gwinllan yn Sir Fynwy (y cyfan yn cynnig teithiau a chyfleoedd i flasu) yn ogystal â distyllfeydd jin, bragdai bach, perllannau seidr ac amrywiaeth eang o fannau bwyta o safon uchel – gan gynnwys tafarndai traddodiadol yn y wlad a chaffis yn ogystal â gwestai yn cynnig te prynhawn sydd wedi ennill gwobrau.

Gyda bwyd mor wych yn cael ei gynnig nid yw'n syndod bod gennym ein gŵyl fwyd ein hunain sy'n cael ei chydnabod yn rhyngwladol yn y Fenni, a gynhelir yn flynyddol ym mis Medi.

Chwiliwch am rai o'r trysorau cudd gan gynnwys Gerddi Dewstow (oedd wedi eu claddu dan dunelli o bridd am dros 50 mlynedd), Eglwys Priordy'r Santes Fair yn y Fenni gyda'i chofebion hanesyddol a cherfiadau canoloesol, Wales Perfumery yn Nhrefynwy (yr unig ganolfan bersawr yng Nghymru) a Stiwdios Rockfield lle gwnaeth Queen recordio'r 'Bohemian Rhapsody'.

# Atyniadau

Mae digonedd i'w weld a'i wneud yn y gornel hon o Dde Cymru. Cestyll, abatai, amgueddfeydd a pharciau gwledig hyfryd mewn golygfeydd hardd dros ben.

## Tref Rufeinig Caerwent

Prifddinas llwyth y Silwriaid (Venta Silurum) yng nghyfnod y Rhufeiniaid, wedi ei hamgáu gan furiau trawiadol 17 troedfedd o'r 4edd ganrif. Tai wedi eu datgloddio, fforwm-basilica a theml Rufeinig-Brydeinig hefyd yno. Man parcio ceir, mynediad gwastad i'r toiledau a phaneli dehongli.



ffôn: +44 (0)1443 336000
e-bost: cadw@gov.wales
y we: https://cadw.llyw.cymru/ymweld/lleoedd-i-ymweld/tref-rufeinig-caer-went

## Castell Cil-y-coed

Teithiwch trwy amser o gastell canol oesol i blasty Fictoraidd. Yn sefyll mewn 55 erw o barcdir hardd gyda rhaglen lawn o ddigwyddiadau (gan gynnwys gwleddoedd canol oesol) ac ystafell de.



ffôn: +44 (0)1291 420241
e-bost: caldicotcastle@monmouthshire.gov.uk
y we: https://www.visitmonmouthshire.com/castellcilycoed

## Cwrs Rasio Cas-gwent

Mwynhewch ddiwrnod gwych ym mhrif gwrs rasio ceffylau Cymru, cartref Grand National Cymru Coral yn flynyddol. Gyda chalendr llawn iawn o ddigwyddiadau rasio ac eraill, mae rhywbeth i'w weld a'i wneud yno bob amser.



ffôn: +44 (0)1291 622260
e-bost: info@chepstow-racecourse.co.uk
y we: www.chepstow-racecourse.co.uk

## Priordy Llanddewi Nant Hodni

Yn swatio yn Nyffryn Euas hardd a diarffordd, mae Priordy Llanddewi Nant Hodni yn safle sy'n ysbrydoli pawb sy'n ei ddarganfod. Mae Gwesty'r Priordy ar y tir yn cynnig bwyd a diod i'w mwynhau yn y lleoliad gwych hwn.



ffôn: +44 (0)1443 336000
e-bost: cadw@gov.wales
y we: cadw.llyw.cymru/ymweld/lleoedd-i-ymweld/priordy-llanddewi-nant-hodni

## Amgueddfeydd Treftadaeth MonLife

Dewch i ymweld â'n hamgueddfeydd yn y Fenni, Cas-gwent a Threfynwy lle mae storïau eu trefi'n dod yn fyw trwy gelfyddyd, dangosiadau, gwisgoedd, arteffactau, modelau ac amrywiaeth o arddangosfeydd.




ffôn: +44 (0)1873 854282
e-bost: abergavennymuseum@monmouthshire.gov.uk
y we: https://cy.visitmonmouthshire.com/pethau-iw-gwneud/atyniadau/amgueddfeydd-ac-orielau

## Cestyll Sir Fynwy

Arweiniodd hanes Sir Fynwy at ddigonedd o gestyll gwych i'w darganfod a'u harchwilio. Dyma rai o'r rhai gorau: Y Fenni, Cil-y-coed, Cas-gwent, Grysmwnt, Trefynwy, Rhaglan, Ynysgynwraidd, Brynbuga a'r Castell Gwyn.



ffôn: +44 (0)1291 623772
e-bost: tourism@monmouthshire.gov.uk
y we: https://cy.visitmonmouthshire.com/pethau-iw-gwneud/atyniadau/cestyll-a-safleoedd-hanesyddol



## Nant-y-Bedd, Y Fenni

Gardd a choetir 10 erw organig ar 1200 troedfedd yn y Mynyddoedd Du. Gardd Partner y Flwyddyn yr RHS yn 2022.



e-bost: garden@nantybedd.com
y we: www.nantybedd.com

## Hen Orsaf, Tyndyrn


Galwch heibio am de a theisen yn y safle 10 erw hyfryd hwn ar lan Afon Gwy. Mewn hen orsaf drenau Fictoraidd, mae'r Hen Orsaf yn cynnig teithiau cerdded, arddangosfeydd, digwyddiadau a'r man perffaith i gael paned yn Nyffryn Gwy.



ffôn: +44 (0)1291 689566
e-bost: oldstationtintern@monmouthshire.gov.uk
y we: https://cy.visitmonmouthshire.com/pethau-iw-gwneud/old-station-tintern-p1502751

## Stiwdios Rockfield

Ymwelwch â'r stiwdio recordio enwog lle gwnaeth Queen recordio 'Bohemian Rhapsody'. Teithiau grwpiau - archebu'n hanfodol.



ffôn: +44 (0)1600 712449
e-bost: helen@rockfieldmusicgroup.com
y we: www.rockfieldmusicgroup.com

## Neuadd Sirol, Trefynwy


O achosion llys y Siartwyr i deithiau ysbrydion, mae'r Neuadd Sirol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau mewn adeilad o'r cyfnod Sioraidd. Hefyd, darganfyddwch hanes Trefynwy a'i Phont a Phorth unigryw gyda'r teithiau'n cychwyn o'r Neuadd Sirol.



ffôn: +44 (0)1600 775257
e-bost: shirehall@monmouthshire.gov.uk
y we: https://cy.visitmonmouthshire.com/pethau-iw-gwneud/shire-hall-museum-monmouth-p1503101

## Abaty Tyndyrn

Ysbrydoliaeth i artistiaid a beirdd ar hyd y canrifoedd, Abaty Tyndyrn yw canolbwynt Dyffryn Gwy. Mae'n adeilad canoloesol sydd wedi cadw'n rhyfeddol mewn ardal o harddwch naturiol eithriadol.



ffôn: +44 (0)1291 689251
e-bost: tinternabbey@gov.wales
y we: cadw.llyw.cymru/ymweld/lleoedd-i-ymweld/abaty-tyndyrn

## Wales Perfumery, Trefynwy

Gallwch greu eich persawr arbennig eich hun mewn sesiwn bersawr ddwy awr. Dysgwch am hanes creu persawr, sut mae persawr yn gweithio ac yna cewch greu eich potel eich hun o bersawr i fynd adref. Uchafswm maint grŵp 10, yn addas i fysiau mini.



e-bost: info@walesperfumery.com
y we: www.walesperfumery.com

# Gweithgareddau

Ewch allan a mwynhau'r awyr agored yn y gornel hardd hon o dde Cymru. Mae digonedd o ddewis gan gynnwys teithiau cerdded, golff, cwch ar gamlas, chwaraeon dŵr a dringo.

## Cychod Parc Beacon


Gwyliau moethus mewn cychod camlas ar Gamlas drawiadol Sir Fynwy ac Aberhonddu ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae eu teithiau cychod camlas yn cynnig golygfeydd trawiadol ar draws Sir Fynwy, trwy drefi marchnad tlws a chefn gwlad heddychlon.



ffôn: +44 (0)1873 858277
e-bost: enquiries@beaconparkboats.com
y we: www.beaconparkboats.com

## Awyr Agored Borderlands

Dewiswch o blith dringo creigiau, abseilio, archwilio ogofau, crefftau coed, saethyddiaeth a mwy. Anturiaethau hanner diwrnod, diwrnod llawn ac aml ddiwrnod addas i grwpiau.



ffôn: +44 (0)7850 135869
e-bost: info@borderlandsoutdoor.com
y we: www.borderlandsoutdoor.com

## Llwybrau Cerdded Celtaidd

Mae Celtic Trails yn trefnu gwyliau cerdded o'r safon uchaf. Ewch ar eich cyflymder eich hun gydag arweiniad ein nodiadau a mapiau hawdd eu dilyn. Mwynhewch yr ymdeimlad o ryddid llwyr y mae teithio ar droed yn ei gynnig.



ffôn: +44 (0)1291 689774
e-bost: info@celtic-trails.com
y we: www.celtictrailswalkingholidays.co.uk

## Encilion y Goedwig

Mwynhewch fanteision adfywiol ymdrochi yn y coed yng nghoetir hynafol Dyffryn Gwy yn ogystal ag encilion ioga a llesiant, dosbarthiadau ioga a dyddiau llesiant corfforaethol wedi eu hargymell gan y Guardian.



ffôn: 07826 557211
e-bost: info@forestretreats.co.uk
y we: www.forestretreats.co.uk

## Glanfa Goetre

Canolfan weithgareddau ar Gamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu. Gallwch logi cwch camlas am y diwrnod, mynd ar daith gerdded neu ar feic ar hyd y gamlas neu dreulio amser yn pysgota. Cewch luniaeth yn ein caffi a'n bar coffi ar y safle.



ffôn: +44 (0)1873 880516
e-bost: abclg@goytrewharf.com
y we: www.goytrewharf.com

## Inspire2Adventure

Mewn lleoliad perffaith i ymwelwyr â'r Fenni, Trefynwy a Dyffryn Gwy, rydym yn darparu ar gyfer teuluoedd, grwpiau ieuenctid, grwpiau partïon plu a hyddod, digwyddiadau llunio timau, grwpiau coleg/ ysgol ac oedolion.



ffôn: +44 (0)1600 891515
e-bost: info@inspire2adventure.com
y we: www.inspire2adventure.com



## Llyn a Chanolfan Chwaraeon Dŵr Llandegfedd

Ffowch rhag prysurdeb bywyd modern wrth gronfa ddŵr 434 erw Llandegfedd. Mwynhewch mewn caiac, yn hwylio a chwaraeon dŵr eraill, cerddwch ar y 2 filltir o lwybrau neu mwynhewch y golygfeydd gyda theisen yn ein canolfan ymwelwyr newydd.



ffôn: +44 (0)1633 373401
e-bost: llandegfedd@dwrcymru.com
y we: www.llandegfedd.co.uk

## Antur Awyr Agored MonLife

Rhowch gynnig ar ganwio, saethyddiaeth, dringo, archwilio ogofau, cerdded a mwy yn ein canolfan awyr agored yng nghefn gwlad Sir Fynwy. Rydym yn y lle delfrydol i gael mynediad i Ddyffryn Gwy a Bannau Brycheiniog gyda llety ar y safle.



ffôn: +44 (0)1873 735485
e-bost: info@gwentoutdoorcentres.org.uk
y we: https://cy.visitmonmouthshire.com/pethau-iw-gwneud/gilwern-outdoor-adventure-centre-p1503121

## Canolfan Canŵ a Gweithgareddau Trefynwy

Mwynhewch olygfeydd trawiadol Dyffryn Gwy o'r dŵr, gyda'n dewis modern o ganŵs a chaiacs. Gallwch rwyfo hyd at 100 milltir trwy'r Gelli Gandryll, Henffordd, Trefynwy a Thyndyrn.



ffôn: +44 (0)1600 716083
e-bost: monmouthcanoe@hotmail.com
y we: www.monmouthcanoe.co.uk

## Cyrsiau Golff Sir Fynwy

Mwynhewch 'golff fel y dylai fod' yn Sir Fynwy gyda chwe chwrs chwedlonol. Cymysgedd o gyrsiau, pellter ac anawsterau ar draws y sir, o fryniau'r Fenni i Wastadeddau Gwent ger Cas-gwent.




y we: www.visitmonmouthshire.com/golf

## Way2Go Adventures

O'n canolfan yn harddwch Dyffryn Gwy, rydym yn cynnig teithiau dan arweiniad, teithiau canŵ, caiac a chaiac ar y môr i deuluoedd, grwpiau, unigolion a phartïon.



ffôn: +44 (0)1594 800908
e-bost: active@way2goadventures.co.uk
y we: www.way2goadventures.co.uk




**Dechrau / diwedd Llwybr Arfordir Cymru, Cas-gwent**

# Llety

Mae plasdai, encilion gwledig cyfforddus a gwestai annibynnol o safon uchel yn golygu bod digon o ddewis i chi.

## The Beaufort Hotel


Rydym yn croesawu partïon ar fysiau yn gynnes - 25 ystafell wely. Gallwn gynnig lluniaeth/ prydau i grwpiau o hyd at 90 o bobl. Cinio / aros dros nos am ddim i yrrwr y bys.



ffôn: +44 (0)1600 715577
e-bost: info@thebeauforthotel.co.uk
y we: www.beauforthotelchepstow.com

## Tŷ Magwyr

Mae'r gwesty newydd ei adeiladu hwn yn ganolfan gyfleus, yn agos at yr M4 yn nhref hyfryd Magwyr. Dim ond taith fer mewn car i ganol dinas Casnewydd ac o fewn 25 milltir i Gaerdydd. Mae gan y gwesty far a bwyty, gan gynnwys ystafell ffitrwydd.



ffôn: +44 (0)1633 749999
e-bost: tyhotelbookings@celtic-manor.com
y we: www.celtic-manor.com/hotels-lodges/ty-hotel

## Gwesty Cwrt Bleddyn


Yn gofalu am westeion yn arbennig ers yr 16eg ganrif. Dros 45 o ystafelloedd en-suite gyda golygfeydd gwych dros gefn gwlad. Mwynhewch de prynhawn blasus yn yr Ystafell De.



ffôn: +44 (0)1633 450521
e-bost: bookings@cwrtbleddyn.co.uk
y we: www.cwrtbleddyn.co.uk

## Delta Hotels gan Marriott Clwb Gwledig St Pierre


Yn swatio mewn 400 erw o gefn gwlad, roedd y gwesty yn blasty o'r 14eg ganrif. Mewn lleoliad delfrydol yng Nghas-gwent, mae'r gwesty yn y lle perffaith i archwilio Dyffryn Gwy, Trefynwy a gweddill De Cymru.



ffôn: +44 (0)1291 625261
e-bost: stpierre.events@deltahotels.co.uk
y we: www.marriott.com/en-gb/hotels/ brssp-delta-hotels-st-pierre-country-club

## Gwesty'r Fenni


Mae'r Abergavenny Hotel yn adeilad Fictoraidd hudolus yn agos at ganol tref farchnad hanesyddol y Fenni. Mae'r gwesty yn cynnwys 20 o ystafelloedd i wahoddedigion, a bar eclectig ei arddull lle gweinir brecwast cyfandirol.



ffôn: +44 (0)1873 859050
e-bost: info@angelabergavenny.com
y we: www.abergavennyhotel.com

## Gwesty'r Angel

Hen dafarn y goets fawr a bwthyn sy'n cael ei wasanaethu gyda bwyty cain. Yn agos at gastell, marchnad a siopau annibynnol y Fenni. Enillodd Brif Wobr Gwesty Dinas a Chefn Gwlad' y 'Tea Guild' am De Prynhawn. Yn agos at Walnut Tree y bwyty â seren Michelin gan Shaun Hill.



ffôn: +44 (0)1873 857121
e-bost: info@angelabergavenny.com
y we: www.angelabergavenny.com

**Mae Sir Fynwy yn ffodus o fod â chymaint o erddi rhyfeddol i ymweld â nhw, cyfleoedd rhagorol i brynu planhigion, a mannau â gerddi hyfryd i aros.**

## Gerddi i Ymweld â Nhw

**Fferm Highfield**
Dyma gardd a ddiffinnir gan ei blanhigion. Mae dros 1200 o gyltifarau wedi eu plannu, llawer o rai prin, dros 3 erw i greu arddangosfa afieithus ar draws y tymhorau. Ar agor trwy drefniant rhwng Mai a Medi ar gyfer grwpiau rhwng 5 a 50.

jenny.plants@btinternet.com
https://highfieldfarmgarden.co.uk/

**High Glanau, Lydart, ger Trefynwy**
Yr ail o erddi Celf a Chrefft Sir Fynwy a drefnwyd gan H Avray Tipping ym 1922. Mae'r nodweddion gwreiddiol yn cynnwys terasau cerrig trawiadol gyda golygfeydd eang dros Ddyffryn Wysg hyd at y Blorens, Ysgyryd Fawr, Mynydd Pen y Fâl a Bannau Brycheiniog.

ffôn: +44 (0)1600 860005

**Gardd Llanofer**
Mae wyth cenhedlaeth wedi byw yn Llanofer, yn gofalu am yr ardd a'r planhigion ers 1792 pan wnaeth Benjamin Waddington ei chreu, tad Arglwyddes Llanofer (fu'n hybu traddodiadau, iaith, cerddoriaeth, llenyddiaeth a da byw Cymru).

+44 (0)7753423635
elizabeth@llanover.com
www.llanovergarden.co.uk

**Nant-Y-Bedd, Y Fenni**
Gardd a choetir 10 erw organig ar 1200 troedfedd yn y Mynyddoedd Du. Gardd Partner y Flwyddyn yr RHS yn 2022.

garden@nantybedd.com
www.nantybedd.com

**Gardd Nelson**
Yng nghudd yng nghanol Trefynwy mae gardd furiog fechan drefol yr ymwelodd yr Arglwydd Nelson â hi ym 1802.

https://cy.visitmonmouthshire.com/pethau-iw-gwneud/atyniadau/parciau-a-gerddi

**Brynbuga yn ei Blodau**
Enillydd Cymru yn ei Blodau am 40 o flynyddoedd yn olynol. Yn 2018 llwyddodd Brynbuga i guro cystadleuwyr byd-eang i ennill y gystadleuaeth ryngwladol Cymunedau yn eu Blodau. Enillydd Pentref Mawr Cymru yn ei Blodau 2019. Dewch i ddarganfod tref sy'n orlawn o flodau a gwyrddni.

www.uskinbloom.org.uk

**Penwythnos Gerddi Agored Brynbuga**
Fe'i cynhelir fel arfer ar benwythnos olaf Mehefin, mae Penwythnos Gerddi Agored Brynbuga yn gadael i ymwelwyr weld dros 20 o erddi preifat. Enillodd gwirfoddolwyr Brynbuga yn ei Flodau eu categori yn Cymru yn ei Blodau am dros 30 mlynedd. Mae un o'r gerddi mwyaf trawiadol o amgylch Castell canoloesol Brynbuga - rhywle y mae'n rhaid ei weld ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.
www.uskopengardens.com

**Veddw House, Y Defawden, ger Cas-gwent**
Crëwyd yr ardd fodern ramantus hon gan yr awdur am erddi Anne Wareham a'r ffotograffydd Charles Hawes ac mae wedi cael sylw mewn nifer o gylchgronau garddio. Un rhan sy'n ffefryn gan ymwelwyr yw'r pwll adlewyrchu dramatig.

+44 (0)1291 650836
anne@veddw.co.uk
www.veddw.co.uk

**Gardd Gerfluniau Dyffryn Gwy, Tyndyrn, ger Cas-gwent.**
Mwynhewch gyfres o gerfluniau wedi eu gosod yn addas o gwmpas yr ardd dawel hon, ar lechwedd heulog yn rhan isaf Dyffryn Gwy. Mae borderi blodau llawn, pwll, ardal goediog, perllan a gweirgloddiau yn cynnig cynefin cyfoethog i fywyd gwyllt.

+44 (0)1291 689253
www.wyevalleysculpturegarden.co.uk

**CGC Gwent**
Mae nifer o erddi ar draws Sir Fynwy yn agor i grwpiau trwy drefniant fel rhan o'r Cynllun Gerddi Cenedlaethol (CGC).

https://ngs.org.uk/gwent

## Canolfannau Garddio a Meithrinfeydd

**Canolfan Arddio'r Fenni**
www.abergavennygardencentre.com

**Canolfan Arddio Brynbuga**
www.uskgardencentre.co.uk
(bwyty ar y safle)

**Meithrinfa Blanhigion Border**
www.bordernurseries.com

**Canolfan Arddio Rhaglan**
www.raglangardencentre.co.uk
(bwyty Sugarloaf ar y safle)

**Canolfan Arddio Nant-y-deri**
www.nantyderrygc.co.uk

**Canolfan Arddio Cas-gwent**
www.chepstowgardencentre.co.uk
(Bwyty a Chaffi ar y safle)

**Meithrinfa Blanhigion Crowm Hill a Gweithdy Blodau**
www.crownhillnursery.co.uk

**Secret Garden**
www.thesecretgardenwales.co.uk
(Sally's Tea Rooms)

**Canolfan Arddio The Willows**
www.willowsgardencentre.co.uk

## Ysgolion a Chyrsiau Garddio

**Growing in the Border**
Ymweliadau i grwpiau a chyrsiau garddwriaeth ymarferol a sgyrsiau yn Nyffryn Mynwy.
www.growingintheborder.co.uk



Am ragor o wybodaeth gan gynnwys dyddiadau ac amseroedd agor, ewch i
**https://cy.visitmonmouthshire.com/pethau-iw-gwneud/atyniadau/parciau-a-gerddi**

# Lluniaeth

Rhowch amser ar eich taith i fwynhau cinio neu de neu goffi yn un o'r nifer o gaffis, tafarndai neu fwytai trwy'r rhanbarth.


## Bwyty Abbey Mill, Tyndyrn



Mwynhewch deisennau cartref a Phastai Draig Drwgenwog Tyndyrn (a wnaed â dreigiau wedi eu magu'n lleol) ar lannau'r afon Gwy, ar safle melin wreiddiol Abaty Tyndyrn.

Tyndyrn, NP16 6SE
www.abbeymill.com

## Ystafelloedd Te Castell Cil-y-coed



Lle gwych i ymlacio gyda the a choffi yn ogystal â siocled poeth, gwin, cwrw a mwy. Ymlaciwch, sgwrsiwch â'n staff cyfeillgar a chael cofrodd efallai.

Cil-y-coed, NP26 4HU
www.caldicotcastle.co.uk


## Caffi Canolfan Arddio Cas-gwent



Ymlaciwch dros cappuccino a theisen yn ein caffi neu mwynhewch bryd yn ein bwyty yn edrych dros yr ardd.

Cas-gwent, NP16 6LF
www.chepstowgardencentre.co.uk/restaurant-cafe-bar

## Canolfan Groeso Cas-gwent



Galwch heibio ein caffi wedi ei uwchgylchu am deisen a choffi ac i brynu cynnyrch lleol. Blasu i grwpiau – archebu'n hanfodol.

Cas-gwent, NP16 5EY
https://cy.visitmonmouthshire.com/cynlluniwch-eich-ymweliad/gwybodaeth-i-ymwelwyr

## Craft Renaissance Cafe



Mewn hen ysguboriau wedi eu hadnewyddu mae gennym oriel, siop a chaffi gyda ffrâm dderw drawiadol

Brynbuga, NP15 1JU
www.craftrenaissance.co.uk

## Bwyty Morris yng Nghanolfan Arddio Brynbuga



Bwyty yn y ganolfan arddio yn defnyddio cynnyrch lleol a Chymreig pryd bynnag y bydd yn bosibl. Yn cynnig seddi tu mewn neu'r tu allan gyda mynediad i'r anabl.

Brynbuga, NP15 1TG
www.uskgardencentre.co.uk

## Hen Orsaf, Tyndyrn



Mwynhewch frecwast, tatws trwy'u crwyn, brechdanau, teisennau, bwydydd melys, te a choffi mewn hen orsaf Fictoraidd yn Nyffryn Gwy.

Tyndyrn, NP16 7NX
https://cy.visitmonmouthshire.com/pethau-iw-gwneud/old-station-tintern-p1502751


## Caffi Penelope yng Nglanfa Goetre



Yn sefyll ochr yn ochr â Chamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu yng Nghlanfa Goetre, mae Caffi Penelope yn lle delfrydol i gael bwyd blasus a diodydd ffres gyda seddi dan do a'r tu allan.

Y Fenni, NP7 9EW
www.goytrewharf.com/cafe

## Caffi Pen-y-fâl yng Nghanolfan Arddio Rhaglan



Bwyty yn cynnig bwydydd cartref gan ddefnyddio'r cynnyrch lleol gorau. Mwynhewch olygfeydd panoramig, boed yn eistedd ar ein teras neu o fewn ein hystafell fwyta wedi'i hadnewyddu.

Rhaglan, NP15 2BH
www.raglangardencentre.co.uk

# Archwiliwch Sir Fynwy

## Taith 1 Dydd

Mae llawer i'w weld a'i wneud yn Sir Fynwy. Os ydych yn hoffi'r awyr agored, darganfod hanes neu ychydig o foethusrwydd, mae'r cyfan yma yn y daith undydd hon.



*Stop 1* – **Castell Cil-y-coed**

Cychwynnwch y dydd yng Nghastell Cil-y-coed. Wedi ei adeiladu gan y Normaniaid, daeth y castell yn gartref teuluol yn oes Fictoria. Amgylchynir y castell gan 55 erw o barc gwledig delfrydol.
**https://www.visitmonmouthshire.com/castellcilycoed**



*Stop 2* – **Hen Orsaf, Tyndyrn**

Mae'r Hen Orsaf, Tyndyrn yn barc gwledig hardd, sydd wedi ennill gwobrau yn Nyffryn Gwy. Mwynhewch y golygfeydd gyda theisennau, brechdanau a hufen ia blasus yn y caffi, yn swyddfa docynnau hen orsaf reilffordd Fictoraidd.
**https://cy.visitmonmouthshire.com/pethau-iw-gwneud/old-station-tintern-p1502751**



*Stop 3* – **Amgueddfa'r Neuadd Sirol, Trefynwy**

Mae'r Neuadd Sirol yn adeilad rhestredig Gradd I, a dyma leoliad achosion llys drwgenwog y Siartwyr ym 1840. Cewch weld y llys a mynd i lawr i'r celloedd i weld y fan lle'r oedd y diffynyddion yn cael eu cadw.
**https://cy.visitmonmouthshire.com/pethau-iw-gwneud/shire-hall-museum-monmouth-p1503101**



*Stop 4* – **Gwinllan White Castle, Y Fenni**

Mwynhewch daith a blasu gwinoedd o'r safon uchaf yn harddwch a thawelwch Dyffryn Mynwy
**www.whitecastlevineyard.com**



*Stop 5* – **Te Prynhawn yng Ngwesty'r Angel**

Sbwyliwch eich hun gyda the prynhawn moethus yng Ngwesty'r Angel, Y Fenni, enillwyr nifer o wobrau dros y blynyddoedd. Mwynhewch foethusrwydd dewis eang o de, brechdanau, pasteiod a theisennau.
**www.angelabergavenny.com**

# Archwiliwch y rhanbarth - taith 2 ddiwrnod

Gyda chymaint i'w wneud, gall fod yn anodd gwybod ble i ddechrau. Rydym wedi llunio taith ddeuddydd enghreifftiol i chi, gan roi'r cyfle i chi ymweld â rhai o'r atyniadau gorau yn y rhanbarth.

## Diwrnod 1



*Stop 1* – **Castell Caerffili**
Dechreuodd y gwaith adeiladu ar y castell mwyaf yng Nghymru ym 1268 ac mae'n safle o dros 30 erw gyda waliau, tyrau a phorthdai enfawr. Ar ôl cael ei ymosod yn ystod y Rhyfel Cartref, mae ganddo bellach ei Thŵr Gogwyddol ei hun sydd ar ongl hyd yn oed yn fwy na Thŵr Gogwyddol Pisa.
**https://cadw.llyw.cymru/ymweld/lleoedd-i-ymweld/castell-caerffili**



*Stop 2* – **Parc Cyfarthfa, Amgueddfa'r Castell ac Oriel Gelf, Merthyr Tudful**
Wedi'i hadeiladu ym 1824-25 ar gyfer y meistr haearn William Crawshay II, mae Castell Cyfarthfa bellach yn gartref i Amgueddfa ac Oriel Gelf boblogaidd. Mwynhewch deithiau cerdded ac arddangosfeydd neu grwydro'r Amgueddfa, sy'n destament i ysbryd y 'gweithiwr', a rhan bwysig Merthyr Tudful yn hanes Cymru.
**https://www.visitmerthyr.co.uk/cy/pethau-i-wneud/trosolwg-o-atyniadau/amgueddfa-ac-oriel-gelf-castell-cyfarthfa/**



*Stop 3* – **Tredegar - Cartref y GIG**
Magwyd Aneurin Bevan AS yn nhref ddiwydiannol Tredegar ymysg y glowyr a system iechyd leol. Ysbrydolodd hyn greu'r GIG ym 1948 pan oedd Nye yn Weinidog Iechyd. Gallwch archwilio adeiladau a oedd yn bwysig iddo, gyda chanllaw lleol i ddod â nhw'n fyw.
**https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/ymwelwyr/cartref-y-gig/**



*Stop 4* – **Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon**
Darganfyddwch stori'r diwydiant haearn a glo yn Ne Cymru drwy archwilio'r Safle Treftadaeth y Byd UNESCO hwn - ewch i Amgueddfa Lofaol Cymru Big Pit, Gweithfeydd Haearn Blaenafon, y Rheilffordd Dreftadaeth, Neuadd y Gweithwyr ac archwiliwch y dref hanesyddol hon.
**https://www.visitblaenavon.co.uk/cy**



*Stop 5* – **Castell Rhaglan, Sir Fynwy**
Adeiladwyd y gaer Gymreig hon i greu argraff yn ogystal â dychryn. Mae ei silwét digamsyniol yn eistedd ar gefnen yn edrych dros gefn gwlad godidog Sir Fynwy ac mae rhai yn ei ddisgrifio fel y castell mwyaf mawreddog a godwyd erioed gan Gymry.
**https://cadw.llyw.cymru/ymweld/lleoedd-i-ymweld/castell-rhaglan**

## Diwrnod 2



*Stop 1* – **Tŷ Tredegar, Casnewydd**
Mae'r tŷ hwn o'r 17eg ganrif wedi'i osod mewn 90 erw o barcdir hardd ar gyrion Casnewydd. Bellach yng ngofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, gall ymwelwyr glywed am hanes y tŷ a'i gyn-berchnogion ecsentrig a gweld y casgliad celf.
**https://www.nationaltrust.org.uk/cy/visit/wales/tredegar-house**



*Stop 2* – **Bae Caerdydd, Caerdydd**
Mae'r hen borthladd glo bellach yn ganolbwynt antur ac adloniant - gyda Chanolfan Mileniwm Cymru, y Senedd, teithiau cwch o amgylch y Bae a llawer o ddigwyddiadau. Dewch â hanes yr ardal yn fyw gyda'r ganllaw taith swyddogol.
**www.visitcardiffbay.info**

## Diwrnod 2 *(parhâd)*



*Stop 3* – **Distyllfa Castell Hensol a Gwinllan Llanerch, Hensol, Bro Morgannwg**
Dewch i ddarganfod stori Jin Hensol a gwneud eich blas unigryw eich hun. Gallwch gyfuno hyn gydag ymweliad â Gwinllan Llanerch drws nesaf, lle gallwch weld y grawnwin yn tyfu a blasu'r gwin arobryn.
**https://www.hensolcastledistillery.com/cy/ www.llanerch.co.uk**



*Stop 4* – **Allfa Dylunwyr McArthurGlen, Pen-y-bont**
Wedi'i leoli ar gyffordd 36 traffordd yr M4, mae gan y ganolfan dan do dros 90 o siopau sy'n gwerthu enwau brand a dylunwyr y stryd fawr am brisiau gostyngedig.
**www.bridgenddesigneroutlet.com**




*Stop 5* – **Profiad Ymwelwyr y Bathdy Brenhinol, Rhondda Cynon Taf**
Edrychwch y tu ôl i'r llenni yn sefydliad gweithgynhyrchu hynaf Prydain. Gwelwch drosoch eich hun y bobl a'r prosesau sy'n rhoi'r punnoedd a'r ceiniogau yn eich pocedi.
**https://www.royalmint.com/the-royal-mint-experience/**

Am fwy o syniadau teithiau ewch i **https://www.southernwales.com/cy/groups/itineraries**

## Darganfyddwch fywiogrwydd De Cymru

Mae amseru eich ymweliad yn berffaith yn golygu nid yn unig mwynhau llety o'r radd flaenaf, gan fwynhau bwyd gwych ac archwilio atyniadau hudolus, ond hefyd ymgolli eich hun mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau gwych.

Dyma rai awgrymiadau, ond mae'r rhestr digwyddiadau yn cael ei diweddaru'n rheolaidd. Edrychwch ar **https://www.southernwales.com/cy/events** neu **https://cy.visitmonmouthshire.com/beth-syn-digwydd** am syniadau cyfredol.



Marchnad Nadolig Caerdydd




Rasys Nos Galan Aberpennar



Steelhouse Festival, Blaenau Gwent



Gŵyl Fwyd Ynys y Barri



Gŵyl Fwyd y Fenni



Y Sblash Mawr, Casnewydd




Gwrthryfel Merthyr



Y Caws Mawr, Caerffili



Gŵyl Elvis Porthcawl



Diwrnod Treftadaeth y Byd Blaenafon, Blaenafon

# Parcio i Fysiau

**Edrychwch ble i ollwng eich teithwyr, parcio eich bys neu gael rhagor o wybodaeth am ein prif drefi.**

## Y Fenni

Wedi ei amgylchynu gan 7 mynydd, mae'r Fenni yng nghanol cefn gwlad hardd. Mae'r uchafbwyntiau yn y dref yn cynnwys Castell ac Amgueddfa'r Fenni, Priordy'r Santes Fair a'r Ysgubor Ddegwm, a'r Neuadd y Farchnad hanesyddol.

**Man Gollwng o'r Bws a Parcio**
Gorsaf Fysiau'r Fenni, Heol Trefynwy, NP7 5HF

---

## Cas-gwent

Cartref i un o'r cestyll cyntaf i gael eu hadeiladu yng Nghymru a phont hanesyddol sy'n nodi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr.

**Man Gollwng o'r Bws**
Stand 5, Gorsaf Fysiau, Stryd Thomas, NP16 5DH

**Parcio i Fysiau**
Maes Parcio'r Castell, Stryd y Bont, NP16 5EY

---

## Trefynwy

Tref hanesyddol ar y ffin gydag uchafbwyntiau yn cynnwys y Neuadd Sirol, y bont enwog a strydoedd gyda dwsinau o fanwerthwyr annibynnol.

**Man Gollwng o'r Bws a Pharcio**
ar Stryd Blestium, NP25 3EQ



# Tywyswyr Teithiau

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael y gorau o'ch ymweliad â'r rhanbarth trwy logi gwasanaethau tywysydd teithiau. Aelodau Cymdeithas Tywyswyr Swyddogol Teithiau Cymru yw'r unig dywyswyr a gydnabyddir yn swyddogol i allu arwain yng Nghymru. Maent yn gallu darparu Tywyswyr Bathodyn Glas hyfforddedig, proffesiynol a phrofiadol iawn, a fydd yn helpu i ddod â'ch taith yn fyw.

Mae dwsinau o dywyswyr, pob un â'u harbenigeddau, eu diddordebau a'u sgiliau iaith eu hunain. Gall Tywyswyr Bathodyn Glas fynd â chi ar draws y rhanbarth, tra bod Tywyswyr Bathodyn Gwyrdd yn cynnig arbenigedd mwy arbenigol a lleol.



I ddod o hyd i dywyswyr sy'n addas i'ch anghenion, ewch i **www.walesbestguides.com**

## Canolfan Groeso'r Fenni

Dysgwch bopeth sydd arnoch angen ei wybod am y Fenni a'r Mynyddoedd Du yng Nghanolfan Groeso'r Fenni, sydd yn Neuadd y Farchnad ar Stryd y Groes.

Ffôn: +44 (0)1873 853254
E-bost: abergavennyic@breconbeacons.org
Cod post: NP7 5HD

## Canolfan Groeso Cas-gwent

Yn sefyll wrth ymyl man parcio bysiau gyferbyn â Chastell Cas-gwent, mae ein staff cyfeillgar yn barod i'ch helpu i gynllunio taith ac ymholiadau eraill ymwelwyr.

Ffôn: +44 (0)1291 623772
E-bost: Chepstow.tic@monmouthshire.gov.uk
Cod post: NP16 5EY





# Mapiau a Gwybodaeth Teithio

## Hawdd cyrraedd

Rydyn ni'n wlad wahanol gyda'n hiaith a'n diwylliant ein hunain, ond rydyn ni'n hynod o hawdd i gyrraedd. Dim ond tua dwy awr i lawr yr M4 o Lundain ydym, tra bod Birmingham a Gorllewin Canolbarth Lloegr ond tuag awr o'n ffiniau.

Felly mewn bron dim amser, gallech fod yma, gan ymgolli eich hun yn ein diwylliant a'n traddodiadau, a phwy a ŵyr efallai hyd yn oed yn ceisio ychydig o'n hiaith. Croeso.

Dydyn ni ddim yn fawr iawn, ond mae gennym gymaint i gynnig - ac mae wir yn hawdd iawn i deithio o gwmpas y rhanbarth. Mae system ffyrdd gynhwysfawr yn cysylltu'r holl brif drefi, tra bod llawer o drefi a phentrefi yn cael eu gwasanaethu'n dda gan y rhwydwaith trenau lleol sy'n cysylltu â'r gorsafoedd prif linell.




DE CYMRU






Er i ni wneud pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y cyhoeddiad hwn, ni all Twristiaeth De Cymru dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw wallau, anghywirdeb neu esgeulustod, nag am unrhyw fater sydd ag unrhyw gysylltiad â chyhoeddi'r wybodaeth sydd yn y daflen hon neu'n deillio o wneud hynny. Ni cheir atgynhyrchu'r daflen yn rhannol nag yn llawn heb ganiatâd y cyhoeddwr ymlaen llaw.

Cefnogwyd y cyhoeddiad gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU

**www.cy.visitmonmouthshire.com**

@visit_mon

visitmonmouthshire

Wedi ei gyhoeddi gan: Southern Wales Tourism

Ffotograffau: Hoffai Twristiaeth De Cymru ddiolch i Mike Chapman, Cyngor Sir Fynwy, Visit Britain a © Hawlfraint y Goron Croeso Cymru am ddefnyddio eu delweddau yn y cyhoeddiad. Map © Collins Bartholomew Ltd.

Design: Mediadesign

ymwelwch â sir fynwy

DE CYMRU

# Taith Hardd Dyffryn Gwy

Mae'n fwy na 250 o flynyddoedd ers i William Gilpin fynd ar daith mewn cwch i lawr Afon Gwy ym 1770. Roedd yn ddigwyddiad a arweiniodd at eni twristiaeth Prydain, gan wneud Taith Dyffryn Gwy yn un o'r 'gwyliau pecyn' cyntaf.

Roedd Gilpin yn un o arloeswyr y 'Picturesque' ac arweiniodd ei syniadau at gysyniadau o werthfawrogi a chadwraeth tirwedd, gan gyrraedd ei ben llanw gyda dynodi tirweddau a ddiogelir. Roedd y rhain yn cynnwys ein Parciau Cenedlaethol a'n Tirweddau, mae Tirwedd Genedlaethol Dyffryn Gwy yn un ohonynt (oedd yn arfer cael ei alw yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol), a ddynodwyd ym 1971.

Archwiliwch y dirwedd a ysbrydolodd William Gilpin, J M W Turner a William Wordsworth (ymhlith eraill) a dysgwch am y 'Picturesque'.

**Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys:**

- Y Rhosan ar Wy
- Castell Goodrich
- Symonds Yat
- Trefynwy
- Abaty Tyndyrn
- Castell Cas-gwent




Dyluniad gan Dispirito Design

Am fanylion llawn y daith, ewch i
**http://www.cy.visitmonmouthshire.com/**

ymwelwch â sir fynwy

DE CYMRU